

Cyngor Celfyddydau Cymru

Coronafeirws: Cymorth i Sefydliadau

Cronfa Ymsefydlogi

Ebrill 2020

Cynnwys

Cronfa Ymsefydlogi	3
Beth yw'r gronfa?	3
Cymhwysedd	4
Dyddiadau cau	6
Am faint y gallaf ymgeisio?	6
Beth yw blaenoriaethau'r gronfa?	6
Am beth y gallaf ymgeisio?	6
Beth yw'r meini prawf?	7
Pa wybodaeth fydd raid imi ei darparu?	8
Beth yw'r broses ymgeisio?	8
Cwestiynau cyffredin	9
Pa gwestiynau fydd rhaid imi eu hateb?	9
Manylion banc	10
Ansicr a ydych chi neu'ch cais yn gymwys?	10
Rhyddid gwybodaeth	11
Sut i gwyno	11
Diogelu data	11



Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, Arwyddeg Prydain, Hawdd eu Darllen ac ar awdio. Ceisiwn ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Cronfa Ymsefydlogi

- Dyma gronfa i:
 - sefydliadau sy'n aelodau o Bortffolio Celfyddydol Cymru
 - a sefydliadau nad ydynt yn aelodau'r o'r Portffolio
- Ni all pob aelod o'r Portffolio ymgeisio – mae'n rhaid diwallu meini prawf i fod yn gymwys
- Mae'r gronfa yn cefnogi'r sefydliadau sy'n cael eu heffeithio gan argyfwng coronafeirws ac sy'n ceisio sefydlogi eu busnes a'u cynnal eu hunain drwy'r misoedd nesaf
- Gallwch ymgeisio am grant o hyd at £35,000 ar gyfer gweithgarwch y gallwch ei gyflawni yn y chwe mis nesaf
- Mewn amgylchiadau eithriadol, gall sefydliadau yn y Portffolio ymgeisio am swm uwch ond mae'n rhaid iddynt ofyn yn gyntaf am gytundeb y Cyngor i ymgeisio am swm uwch
- Mae coronafeirws yn effeithio ar lawer o sefydliadau. Ond mae'n bwysig bod arian yn cyrraedd y rhai sydd ei angen fwyaf. Felly gofynnwn ichi feddwl yn ofalus a ddylech ymgeisio ar hyn o bryd
- Bwriad y broses yw bod yn hawdd a chyflym. Rydym ni'n bwriadu prosesu ceisiadau mewn 4 wythnos o'r dyddiad cau. Os bydd nifer y ceisiadau'n golygu nad oes modd inni wneud hyn, byddwn ni'n rhoi gwybod ichi cyn gynted â phosibl

Beth yw'r gronfa?

Ei nod yw cefnogi sefydliadau celfyddydol sy'n gweithio yn y sector dielw yng Nghymru sy'n cael anhawster ariannol uniongyrchol o ganlyniad i golli incwm a phwysau ar eu llif arian yn sgil coronafeirws. Gall y gronfa hefyd fuddsoddi mewn gweithgarwch dros y chwe mis nesaf sy'n fodd i sefydlogi eich sefydliad yn fwy. Ond ein blaenoriaeth fydd y sefydliadau sy'n wynebu'r problemau ariannol mwyaf.

Mae ein rhwydwaith cenedlaethol o sefydliadau celfyddydol yn rhan ganolog o fywyd Cymru. Mae rhai sefydliadau yn aelodau o Bortffolio Celfyddydol Cymru, sy'n adlewyrchu eu gweithgarwch drwy'r flwyddyn. Ond mae llawer rhagor y tu allan i'r portffolio hefyd yn

chwarae rhan bwysig wrth ddarparu cyfleoedd inni fwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt.

Mae pob un ohonynt yn bwysig i gelfyddydau Cymru.

Rhaid inni gefnogi'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf ar hyn o bryd. Ond byddwn ni hefyd am gefnogi'r prosiectau gorau a bydd angen i geisiadau fodloni meini prawf penodol. Os oes gormod o geisiadau am yr arian sydd ar gael, y meini prawf fydd y sail allweddol i benderfynu rhwng geisiadau.

Esbonnir y meini prawf yn ddiweddarach yn y canllawiau yma.

Cymhwysedd

Portffolio Celfyddydol Cymru

Nid yw'r gronfa'n agored i bob sefydliad yn y Portffolio ac roedd yn rhaid inni osod meini prawf i gyfyngu ar nifer y geisiadau.

Felly ni ddisgwyliwn ichi ymgeisio os yw'r canlynol yn wir:

- mae'r arian refeniw a gewch gan y Cyngor yn **fwy na 55%** o gyfanswm eich incwm (ar gyfartaledd dros y tair blynedd 2016/17, 2017/18 a 2018/19)
- mae gennych ddigon o arian wrth gefn ac o arian y Cyngor i'ch cynnal am chwe mis
- rydych chi'n adran o sefydliad mwy (megis awdurdod lleol, y Brifysgol neu'r BBC)

Os yw'r eithriadau yma'n bygwth parhad eich sefydliad, trafodwch y mater gyda ni.

Mae'r Portffolio at ei gilydd yn cael arian refeniw sylweddol gan y Cyngor. Mewn ymateb i argyfwng coronafeirws, rydym ni wedi llacio'r amodau ariannu arferol ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn. Felly credwn y gall y mwyafrif o'r Portffolio ymdopi yn y tymor byr gyda'r arian yna. Rydym ni'n disgwyl na fydd y rhan fwyaf o'r Portffolio yn gorfod ymgeisio i'r gronfa.

Ein blaenoriaeth yw'r sefydliadau yn y Portffolio sy'n cael cyfran lai o'u hincwm oddi wrthym. Mewn llawer o achosion, mae'r sefydliadau yma wedi gweld dros nos ddiflannu llawer iawn o'u gwerthiant tocynnau a'u hincwm a enillir. Mae llawer yn awr yn wynebu pwysau difrifol ar eu llif arian a bygythiad i'w parhad.

Sefydliadau nad ydynt yn y Portffolio

Mae sefydliadau a all ymgeisio yn cynnwys:

- y rhai sydd yng Nghymru, ac wedi'i gyfansoddi'n ffurfiol fel un o'r canlynol:
 - cwmni cyfyngedig drwy warant
 - elusen gofrestredig (gan gynnwys ymddiriedolaethau elusennol)
 - sefydliad elusennol ymgorfforedig
 - cwmni buddiannau cymunedol
 - cwmni cyfyngedig gan gyfrandaliadau (gweler y cyfyngiadau isod)
 - cymdeithas anghorfforedig
 - partneriaeth â rhwymedigaeth gyfyngedig

Gweler ein cwestiynau cyffredin am ragor o fanylion a gwybodaeth bellach am yr uchod.

- **nad** yw wedi'i strwythuro'n fasnachol nac yn gwmni sy'n dosbarthu elw
- sy'n gweithio yn bennaf (dros 50%) yn un o'n disgyblaethau a gefnogir (cerddoriaeth, dawns, y theatr, llenyddiaeth, y celfyddydau gweledol a chymhwysol, y celfyddydau cyfun)
- a chanddo hanes o weithio yn y sector diwylliant a ariennir gan y cyhoedd (yn y tair blynedd diwethaf) gan gynnwys gweithio mewn/gyda llyfrgelloedd
- sy'n cyflawni'r rhan fwyaf o'i waith (dros 60%) yng Nghymru
- sydd â pherson atebol o leiaf 18 mlwydd oed ymhlith ei reolwyr
- a chanddo gyfeiriad cofrestredig yng Nghymru
- a chanddo gyfrif banc ym Mhrydain yn enw eich sefydliad sydd ag o leiaf ddau berson a all awdurdodi trafodion (gweler yr adran am gyfrifon banc)

Dyddiadau cau

Mae'r gronfa yn agor i geisiadau ddydd Mawrth 21 Ebrill
a'r dyddiad cau i ymgeisio ar-lein yw dydd Gwener 8 Mai 2020

Am faint y gallaf ymgeisio?

Am hyd at £35,000 i'w defnyddio yn chwe mis cyntaf ar ôl cael y grant.

Mewn amgylchiadau eithriadol gall aelodau o'r Portffolio ymgeisio am swm uwch. Ond bydd angen iddynt ofyn yn gyntaf, drwy eu swyddog arweiniol, am gytundeb y Cyngor i ymgeisio am swm uwch.

Beth yw blaenoriaethau'r gronfa?

Mae llawer o sefydliadau yn cael anawsterau ariannol sy'n parhau oherwydd colli enillion o'u gwaith creadigol a/neu eu hymarfer o ganlyniad i goronafeirws. Helpu gyda hyn yw diben y gronfa.

Ond mae gennym ddwy flaenoriaeth gyffredinol.

Y cyntaf yw cynnal ymarfer artistig a buddsoddi mewn gwytnwch sefydliadau.

Yr ail yw annog effaith celfyddydau Cymru i fod yn fwy cynhwysol ac yn fwy pellgyrhaeddol. Rydym ni am i'r prosiectau a ariannwn gynnwys egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob peth a wnânt. Rydym ni am i ragor o bobl mewn cymunedau a lleoedd sy'n cael eu gwasanaethu'n llai gan y celfyddydau a ariennir yn gyhoeddus gael cyfleoedd i fwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt. Rhoddwn bwys arbennig ar waith gyda phobl fyddar ac anabl ac ar waith ar eu cyfer. Byddwn ni'n disgwyl ichi ddangos sut rydych chi wedi ystyried hyn yn eich cais.

Mae hyrwyddo gweithgarwch Cymraeg yn bwysig iawn inni. Cenedl ddwyieithog yw Cymru – yn gyfreithiol, yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol, ac yn unigolion a chymunedau – a'r Gymraeg yn anad dim sy'n nodweddu ein gwlad. Rydym ni'n disgwyl i bobl allu ymgysylltu â'r celfyddydau yn eu dewis iaith – yn aelodau o gynulleidfa, yn gyfranogwyr neu'n artistiaid. Esboniwch yn eich cais sut y gallwch gyflawni'r nod yma.

Am beth y gallaf ymgeisio?

Gellir defnyddio'r arian i dalu am:

- gweithgarwch i alluogi eich sefydliad i oroesi yn wyneb effaith ariannol coronafeirws, er enghraifft:

- newidiadau brys i'ch model busnes
- costau gweithredol hanfodol (fel rhent a chostau staff)
- costau TG a chostau eraill sy'n gysylltiedig ag offer i alluogi gweithio gartref
- cymorth gyda phwysau llif arian
- datblygu a chyflwyno gweithgarwch sy'n gyflawnadwy yn ystod y chwe mis nesaf gan gynnwys:
 - prosiectau datblygu yn barod at ailgychwyn eich gwaith arferol, er enghraifft datblygu sefydliadol
 - prosiectau sy'n wynebu'r cyhoedd, er enghraifft gweithgarwch digidol/ar-lein

Beth yw'r meini prawf?

Caiff ceisiadau eu hasesu yn erbyn y meini prawf canlynol:

- graddau a brys yr angen ariannol sydd yn eich cais
- cryfder creadigol a/neu artistig y prosiect neu'r gweithgarwch, neu ei gyfraniad at gefnogi creadigrwydd pobl eraill
- i ba raddau y mae'r prosiect neu'r gweithgarwch yn bodloni ein blaenoriaethau
- cryfder effaith y prosiect neu'r gweithgarwch ar eich gwaith a'r budd i eraill, nawr ac yn y dyfodol
- cryfder y cynlluniau ymarferol i reoli a chyflawni'r prosiect neu'r gweithgarwch gan gynnwys cynlluniau ariannol
- cydbwysedd y gweithgarwch a'r ariannu ar draws y celfyddydau, disgyblaethau, cymunedau a lleoedd ledled Cymru

Rydym ni am sicrhau bod sector y celfyddydau a diwylliant yn cynrychioli orau ein cymdeithas. Gobeithio y bydd yr arian yn galluogi'r amrywiaeth ehangaf o ymarferwyr creadigol i gynnal eu hincwm yn ddigonol fel y gallant barhau i weithio'n llwyddiannus yn y dyfodol. Felly rydym ni'n croesawu'n arbennig geisiadau gan bobl dduon, pobl Asiaidd, pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, pobl fyddar a phobl anabl.

Pa wybodaeth fydd raid imi ei darparu?

Bydd yn cynnwys y canlynol:

1. Manylion am eich sefydliad a dau gyswllt ar wahân yn eich sefydliad
2. Esboniad o sut mae coronafeirws wedi effeithio ar eich sefydliad
3. Eich cynnig am brosiect gan gynnwys dyddiadau dechrau a gorffen
4. Gwybodaeth gydraddoldeb am eich sefydliad a'ch prosiect
5. Cyllideb eich prosiect a'i lif arian (ar y templedi a islwythwch o'n ffurflen gais)
6. Tystiolaeth briodol bod gennych gyfrif banc yn eich enw cyfreithiol

Rydym ni'n casglu a monitro gwybodaeth ynghylch ble y buddsoddwn ein harian, pa fath o weithgarwch rydym ni'n ei gefnogi a phwy sy'n elwa o'r gweithgarwch. Mae hyn yn fodd inni lunio adroddiadau gofynnol am effaith ein harian. Mae hefyd yn darparu data a gwybodaeth inni allu cyflwyno achos dros ariannu'r celfyddydau.

Beth yw'r broses ymgeisio?

1. Gofynnwn ichi lenwi a chyflwyno ar-lein ffurflen gais syml sydd [yma](#)
Os ydych chi'n methu â chael y ffurflen ar-lein, cysylltwch â ni: grantiau@celf.cymru
2. Ar ôl derbyn eich cais, anfonwn e-bost o gydnabyddiaeth atoch.
3. Byddwn ni'n penderfynu ar eich cymhwysedd drwy ddarllen eich gwybodaeth. Mae'n bosibl y bydd angen inni ofyn ichi am ragor o wybodaeth.
4. Byddwn ni'n darllen cyllideb a llif arian eich prosiect i sicrhau eu bod yn diwallu ein blaenoriaethau a bod y ffigyrau'n briodol i fath a graddfa'r gweithgarwch arfaethedig.
5. Cysylltw'n â chi i gael esboniad pellach o'r wybodaeth yn eich cais.
6. Ar ôl cymeradwyo eich cais, byddwn ni'n gofyn ichi lenwi a dychwelyd ein nodyn derbyn grant a'ch manylion banc.
7. Ar ôl ichi dychwelyd eich nodyn derbyn grant ac rydym ni wedi gwirio eich manylion banc, talwn 90% o'r grant. Talwn y 10% sy'n weddill ar ôl i'r prosiect/gweithgarwch orffen ac ar ôl inni gael yr adroddiad diweddu.

Dalier sylw:

Byddwn ni'n ymateb i bob cais mewn 4 wythnos o'r dyddiad cau. Ceisiwn ymateb yn gyflymach lle bo hynny'n bosibl. Os bydd coronafeirws yn effeithio ar ein gallu i gadw at yr amserlen yma, cysylltw'n ni â chi i drafod yr amserlen ddiwygiedig.

Cwestiynau cyffredin

Cyn dechrau ar eich cais, dylech ddarllen ein [Cwestiynau Cyffredin](#). Bydd y rhain yn rhoi gwybodaeth bwysig ichi am lenwi'r cais.

Pa gwestiynau fydd rhaid imi eu hateb?

Dechreuwn gyda chwestiynau bras amdanoch chi a'ch prosiect. Rydym ni hefyd yn gofyn am ddata a gwybodaeth syml i'n helpu i fonitro ble mae ein harian yn mynd (er enghraifft ble mae eich gweithgarwch yn digwydd, a pha gelfyddyd rydych chi'n gweithio ynddi).

Gofynnwn hefyd am y canlynol:

1. Beth oedd trosiant eich sefydliad yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf?

Rhowch wybod inni am eich sefyllfa o ran arian wrth gefn gan gynnwys arian cyfyngedig ac anghyfyngedig wrth gefn. Os ydych chi'n aelod o'r Portffolio, dywedwch wrthym sut rydych chi'n defnyddio eich arian oddi wrthym i gynnal eich sefydliad ar hyn o bryd

2. Sut mae coronafeirws wedi effeithio ar eich busnes a pha golledion ariannol a gawsoch?

Beth sydd wedi digwydd i'ch sefydliad o ganlyniad i goronafeirws? (Nid ydym ni'n gallu eich cefnogi drwy'r gronfa yma os nad yw eich newid mewn amgylchiadau yn gysylltiedig â cholli incwm o ganlyniad i goronafeirws)

3. Disgrifiwch waith eich sefydliad a'i hanes o weithio yn sector y celfyddydau a diwylliant a ariennir gan y cyhoedd.

Pa fath o waith ydych chi'n ei wneud yn fras? Beth yw budd cyhoeddus eich gwaith? Pa lwyddiannau yr hoffech chi eu disgrifio'n arbennig?

4. Pa wahaniaeth y bydd grant brys o'r gronfa yn ei wneud i'ch sefydliad? Sut y gallech ei ddefnyddio yn y chwe mis nesaf?

Nodwch yn fanwl yma unrhyw arian argyfwng arall rydych chi'n disgwyl ei dderbyn o ffynonellau eraill. A allwch ddefnyddio rhywfaint o'ch arian wrth gefn yn ystod y cyfnod yma?

5. A ydych chi'n ceisio cymorth ariannol o ffynonellau eraill? A ydych chi'n disgwyl llwyddo?

6. Eich cynnig am brosiect.

Dyma'r lle i ddisgrifio eich prosiect neu'ch gweithgarwch arfaethedig. Esboniwch mor glir â phosibl yr hyn rydych chi am ei gyflawni. Sut bydd y prosiect neu'r gweithgarwch yn diwallu ein blaenoriaethau?

7. Gwybodaeth gydraddoldeb am eich prosiect.

8. Cyllideb eich prosiect a'i lif arian.

Rhaid eu cynnwys yn y templed sydd ar gael gyda'n ffurflen gais. Dylai'r llif arian fod am gyfnod o chwe mis o ddyddiad y cais

9. Tystiolaeth bod gennych gyfrif banc yn eich enw cyfreithiol sy'n cwrdd â'n gofynion.

10. Tystiolaeth bod gennych strwythur llywodraethu sy'n diwallu gofynion cymhwysedd y gronfa.

Manylion banc

- Gallwn dim ond dalu'r grant i gyfrif yn enw eich sefydliad lle gall o leiaf ddau berson (llofnodwyr) awdurdodi trafodion.
- Rhaid i'ch cyfrif fod ym Mhrydain
- Byddwn ni'n talu drwy BACS
- Rhaid ichi lenwi a dychwelyd ffurflen manylion banc hyd yn oed os ydych wedi derbyn arian oddi wrthym o'r blaen ac i'r un cyfrif

Gweler y cwestiynau cyffredin am ragor o gyngor am dystiolaeth banc.

Ansicr a ydych chi neu'ch cais yn gymwys?

Darllenwch y [Cwestiynau Cyffredin](#).

Mae'r gronfa'n dibynnu ar onestrwydd y ceisiadau. Sicrhewch eich bod yn ateb pob cwestiwn yn llawn, yn glir ac yn onest. Os atebwch gwestiwn gyda gwybodaeth anghywir, efallai y bydd raid inni adhawlio'r arian yn ddiweddarach neu gymryd camau eraill pan ydym ni'n amau twyll.

I gael gwybod a ydych chi neu'ch cais yn gymwys, neu i drafod cwestiynau eraill am y gronfa, cysylltwch â'n Gwasanaeth Ymholiadau:

E-bost: grantiau@celf.cymru

Gwefan: llenwch ffurflen ar ein [gwefan](#)

Trydar: anfonwch drydariad atom [@celf_cymru](#)

Ceisiwn ymateb i bob ymholiad yn brydlon.

Os ydych am inni eich ffonio yn ôl, rhowch eich rhif inni a byddwn ni'n eich ffonio cyn gynted ag y bo modd.

Rhyddid gwybodaeth

Rydym ni wedi ymrwymo i fod mor agored â phosibl. Credwn fod gan y cyhoedd hawl i wybod sut rydym ni'n gwario arian cyhoeddus a sut rydym ni'n gwneud ein penderfyniadau ariannol. Gallwch weld manylion ein polisi [yma](#)

Rydym ni wedi'n rhestru'n awdurdod cyhoeddus dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Yn ôl y gyfraith, efallai y bydd yn rhaid inni ddarparu eich cais a gwybodaeth am ein hasesiad o'ch cais i unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n gofyn am gael eu gweld dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Ni allwn ryddhau'r rhannau hynny o'r dogfennau sy'n cael eu cynnwys mewn un neu ragor o'r eithriadau yn y Ddeddf. Ewch i'r [wefan Rhyddid Gwybodaeth](#) i gael gwybodaeth gyffredinol am ryddid gwybodaeth a'r eithriadau.

Sut i gwyno

Os nad ydych yn hapus â'r ffordd y gwnaethom ymdrin â'ch cais, gallwch weld copi o'n gweithdrefn gwyno ar ein gwefan [yma](#)

Cofiwch mai dim ond os credwch nad ydym wedi dilyn ein proses wrth ymdrin â'ch cais y gallwch gwyno. Ni allwch ddefnyddio'r weithdrefn gwyno i apelio yn erbyn y penderfyniad ei hun.

Diogelu data

Mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol o'n rhwymedigaethau a'n cyfrifoldebau dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. Mae'r Rheoliadau'n rheoleiddio sut rydym ni'n casglu, rheoli, rhannu a storio data personol a'ch hawliau mewn perthynas â'n rheolaeth o'ch data.

Mae rhagor o wybodaeth yn ein polisi preifatrwydd.

Ni fyddwn ni'n datgelu data personol na data personol sensitif (sydd wedi'u diffinio yn y Rheoliadau) heb eich cydsyniad oni bai bod rhwymedigaeth bwysicach yn berthnasol (er enghraifft, dyletswydd gyfreithiol).